OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 3047 (Cy.266)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau) 2009

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi'i wneud yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'n rhoi effaith i gynigion y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn") a adroddodd ym mis Mai 2009 ar ei adolygiad o ffiniau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Argymhellodd adroddiad y Comisiwn newidiadau i ffiniau cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr, Bracla, Llangrallo Isaf a Merthyr Mawr. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i argymhellion y Comisiwn heb eu haddasu.

Mae printiau o'r mapiau yn dangos y ffiniau a newidiwyd wedi eu hadneuo a gellir eu harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd (Yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 3047 (W.266)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The County Borough of Bridgend (Communities) Order 2009

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order is made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972. It gives effect to proposals of the Local Government Boundary Commission for Wales ("the Commission") which reported in May 2009 on their review of community boundaries in the County Borough of Bridgend. The Commission's report recommended changes to the boundaries of Bridgend, Brackla, Coychurch Lower and Merthyr Mawr communities. This Order gives effect to the Commission's recommendations without modification.

Prints of the maps showing the changed boundaries are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of Bridgend County Borough Council, Bridgend, and at the offices of the Welsh Assembly Government at Cathays Park, Cardiff (Local Government Policy Division).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 3047 (Cy.266)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *16 Tachwedd 2009* |
| *Yn dod i rym* | *1 Rhagfyr 2009* |

Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Mai 2009 ar ei adolygiad o gymunedau mewn rhan o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'i gynigion ar eu cyfer.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r cynigion hynny heb eu haddasu.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd wedi'u breinio bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**):

### Enwi a chychwyn

**1**. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau) 2009 a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2009.

(**1**) 1972 p.70.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 3047 (W.266)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The County Borough of Bridgend (Communities) Order 2009

| | |
|---|---|
| *Made* | *16 November 2009* |
| *Coming into force* | *1 December 2009* |

The Local Government Boundary Commission for Wales have, in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(**1**), submitted to the Welsh Ministers a report dated May 2009 on their review of, and proposals for, communities within part of the County Borough of Bridgend.

The Welsh Ministers have decided to give effect to those proposals without modification.

More than six weeks have elapsed since those proposals were submitted to the Welsh Ministers.

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 and now vested in them so far as exercisable in relation to Wales(**2**):

### Title and commencement

**1**. The title of this Order is The County Borough of Bridgend (Communities) Order 2009 and it comes into force on 1 December 2009.

(**1**) 1972 c. 70.

(**2**) The powers of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are now vested in the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn–

ystyr "Map A" ("*Map A*") yw'r map sydd wedi'i farcio "Map A o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau) 2009" ac sydd wedi'i adneuo yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "Map B" ("*Map B*") yw'r map sydd wedi'i farcio "Map B o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau) 2009" ac sydd wedi'i adneuo yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**1**); ac

os dangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

**3**. Mae newidiadau wedi'u gwneud yn ardal llywodraeth leol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â darpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn.

**Bracla a Phen-y-bont ar Ogwr - newid mewn ardaloedd cymunedol**

**4**. Mae'r rhan o gymuned Bracla a ddangosir fel ardal "A" gyda chroeslinellau ar Fap A–

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pen-y-bont ar Ogwr;

(b) yn ffurfio rhan o ward yr Hengastell o gymuned Pen-y-bont ar Ogwr; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol yr Hengastell.

**Llangrallo Isaf a Phen-y-bont ar Ogwr - newid mewn ardaloedd cymunedol**

**5**. Mae'r rhan o gymuned Llangrallo Isaf a ddangosir fel ardal "B" gyda chroeslinellau ar Fap A–

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pen-y-bont ar Ogwr;

(b) yn ffurfio rhan o ward yr Hengastell o gymuned Pen-y-bont ar Ogwr; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol yr Hengastell.

(**1**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryw o offerynnau statudol ond nad yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol i'r offeryn statudol hwn).

**Interpretation**

**2**. In this Order–

"the Regulations" ("*y Rheoliadau*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976(**1**);

"Map A" means the map marked "Map A of the County Borough of Bridgend (Communities) Order 2009" and deposited in accordance with Regulation 5 of the Regulations;

"Map B" means the map marked "Map B of the County Borough of Bridgend (Communities) Order 2009" and deposited in accordance with regulation 5 of the Regulations; and

where a boundary is shown on a map as running along a road, railway line, footway, watercourse or similar geographical feature, it is to be treated as running along the centre line of the feature.

**3**. Changes are made in the local government area of the County Borough of Bridgend in accordance with the following provisions of this Order.

**Brackla and Bridgend - change in community areas**

**4**. The part of the community of Brackla shown hatched area "A" on Map A–

(a) is transferred to the community of Bridgend;

(b) forms part of the Oldcastle ward of the community of Bridgend; and

(c) forms part of the electoral division of Oldcastle.

**Coychurch Lower and Bridgend - change in community areas**

**5**. The part of the community of Coychurch Lower shown hatched area "B" on Map A–

(a) is transferred to the community of Bridgend;

(b) forms part of the Oldcastle ward of the community of Bridgend; and

(c) forms part of the electoral division of Oldcastle.

(**1**) S.I. 1976/246 (as amended by various statutory instruments which amendments are not relevant to this statutory instrument).

**Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr - newid mewn ardaloedd cymunedol**

**6**. Mae'r rhan o gymuned Pen-y-bont ar Ogwr a ddangosir gyda chroeslinellau ar Fap B–

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Merthyr Mawr; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr.

**Bridgend and Merthyr Mawr - change in community areas**

**6**. The part of the community of Bridgend shown hatched on Map B–

(a) is transferred to the community of Merthyr Mawr; and

(b) forms part of the electoral division of Bryntirion, Laleston and Merthyr Mawr.

*Brian Gibbons*


Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

16 Tachwedd 2009

16 November 2009


# Map A o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau) 2009




Mae'r map hwn wedi'i seilio ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2009.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil.
Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Drwydded: 100017916

179.09-10 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg,
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru


# Map A of the County Borough of Bridgend (Communities) Order 2009




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2009. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government. Licence Number: 100017916

179.09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government


## Map B o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau) 2009




Mae'r map hwn wedi'i seilio ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2009.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil.
Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Drwydded: 100017916

179.09-10 Cynhyrchwyd gan Gartograffeg, Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Map B of the County Borough of Bridgend (Communities) Order 2009




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2009. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government. Licence Number: 100017916

179.09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 3047 (Cy.266)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cymunedau) 2009

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 3047 (W.266)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The County Borough of Bridgend (Communities) Order 2009

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£5.50

W580/12/09 ON